



# **SYNIADAU I CYNGOR**

**29/01/2018**





## Syniad Brys

### Cyflwyno Cynigion i'r Gynhadledd Genedlaethol

*Dylid cymeradwyo'r cynigion a osodwyd yn y ddogfen bolisi i'w cyflwyno i Gynhadledd Genedlaethol UCM 2018 er buddiannau myfyrwyr Aberystwyth.*

Manylion:

Dylid cymeradwyo'r cynigion a osodwyd yn y ddogfen bolisi i'w cyflwyno i Gynhadledd Genedlaethol UCM 2018 er buddiannau myfyrwyr Aberystwyth.

Cyflawnwyd gan: Emma Beenham





## **Gofalwch am Droseddeg, Peidiwch â'n cau ni allan**

*Gwnewch Droseddeg yn flaenoriaeth, nid yn lleiafrif*

Manylion:

Ers 2016, newidiodd Adran y Gyfraith a Throseddeg ei henw i Ysgol y Gyfraith Aberystwyth. Gwnaed hyn heb unrhyw drafodaethau â myfyrwyr o ran sut bydden ni'n teimlo am hyn, a doedd y darlithwyr ond yn gwybod yr wythnos cyn i hyn ddigwydd. Ers hynny, rydyn ni wedi cynnal deiseb i gael hyn wedi'i newid yn ôl; mae hyn er mwyn y Troseddegwyr sy'n teimlo ein bod ni'n cael ein cau allan a'n gadael ar ôl, heb son am ein dewis gwael o fodiwlau oherwydd diffyg staffio. Yn y pen draw, ein haddysg ni sydd dan sylw, fell ni ddylai gael y gair olaf o ran pethau fel newid enw'r adran.

Dylai UMAber lobïo Prifysgol Aberystwyth i ystyried yr opsiynau canlynol:

- Newid enw'r adran yn ôl i 'Adran y Gyfraith a Throseddeg'
- Cynnal ymgynghoriad ymysg myfyrwyr ynglŷn ag enw'r adran, a chaniatáu i'r myfyrwyr benderfynu.

Cyflawnwyd gan: Rhiannon Perrett





## Dwi eisiau campfa ar y penwythnosau

*Mae 1 ac 1 yn ddwy; mae angen oriau campfa hwy!*

Manylion:

Mae'r Ganolfan Chwaraeon yn agored am oriau byrrach ar benwythnosau. Pe bai'r Ganolfan Chwaraeon ar agor am fwy o oriau ar benwythnosau, byddai'n gwella mynediad i fyfyrwyr ac yn darparu mwy o gyfleoedd i glybiau chwaraeon ymarfer. Dylai UMAber annog y Ganolfan Chwaraeon i newid ei oriau agor ar benwythnosau i fod yr un fath â dyddiau eraill yr wythnos, gan ddarparu gwasanaeth cyson dros 7 diwrnod.

Cyflawnwyd gan: Bruce Fraser Wight





## Ymestyn Cyfnod Arholiadau yn Ionawr

*Ymestyn y Cyfnod Arholiadau. Rhowch derfyn ar arholiadau ar ddiwrnodau dilynol. Rydyn ni am i bawb gael y marciau gorau posib.*

Manylion:

Dwi ar hyn o bryd yn fyfyrwr mathemateg ar fy nhrydedd blwyddyn, gydag 6 arholiad yn Ionawr; mae'r cyfnod arholiadau rhwng 10 Ionawr a 23 Ionawr, gan nad oes bellach arholiadau ar ddydd Sadwrn. Rhaid i fyfyrwyr mathemateg fel fi sefyll nifer fawr o arholiadau mewn cyfnod byr.

Mae'r rhan fwyaf o'n harholiadau wedi'u pwysoli ar 100%, felly os ydyn ni'n cael diwrnod gwael ar ddiwrnod yr arholiad, gall hynny effeithio'n sylweddol ar farciau ein gradd.

Mae'r dyddiadau amodol ar gyfer amserlen yr arholiadau i fyfyrwyr mathemateg blwyddyn 3 wedi cael eu rhyddhau'n ddiweddar, ac mae problem o ran y dyddiadau. Mae'r dyddiadau hyn yn agos at ei gilydd, sy'n golygu y bydd straen di-angen arnom yn ystod cyfnod yr arholiadau, sy'n debygol o effeithio ar ein llesiant ar adeg mor bwysig.

Rydw i a myfyrwyr eraill yn wynebu 3 neu 4 arholiad ar ddiwrnodau dilynol; mae bod â chymaint â hyn o arholiadau mor agos at ei gilydd, i gyd wedi'u pwysoli ar 100%, yn gwneud cyflawni ein llawn botensial bron yn amhosib.

Dylai UMAber weithio gyda'r Brifysgol i sicrhau bod cyfnod yr arholiadau'n cael ei ymestyn, a bod y Brifysgol yn cadw at ei bolisi na chaiff arholiadau eu trefnu ddau ddiwrnod yn olynol, neu ddau ar yr un diwrnod, yn arbennig y rheiny wedi'u pwysoli ar 100% o fodiwl. Ni ddylai hyn effeithio ar y penderfyniad i beidio cynnal arholiadau ar ddydd Sadwrn.

Cyflawnwyd gan: Erica Donelly





## Toiledau i Bawb

*Cyflwyno toiledau rhywedd niwtral ar draws y campws, lle bo hynny'n bosib.*

Manylion:

Mae toiledau rhywedd niwtral wedi bod yn llwyddiant hyd yma yn Undeb y Myfyrwyr, a gyda chynlluniau ar y gweill ar gyfer cynnwys toiledau rhywedd niwtral yn Lefel D newydd o Lyfrgell Hugh Owen, mae hwn yn gam sylweddol ymlaen; serch hynny mae cryn lawer o ffordd i fynd yn hyn o beth. Dylai'r Undeb annog y Brifysgol i sicrhau bod toiledau rhywedd niwtral yn cael eu cynnwys mewn adeiladau a phrosiectau newydd mae'r Brifysgol yn ymgymryd â nhw, a lle bo hynny'n bosib, dylid sefydlu'r rhain ar draws adeiladau cyfredol y Brifysgol. Dylid gwneud hyn pan fo cyllidebau a chyfyngiadau cynllunio'n caniatáu yn unig, gan fod rheoliadau'n nodi bod rhaid bod ag o leiaf un set o doiledau ar gyfer rhyweddau o fewn pob adeilad. Rhaid hefyd cymryd i ystyriaeth y ffaith bod toiledau i'r Anabl yn cael eu darparu ar gyfer y rheiny sydd ag anableddau, ac felly nid ydynt yn addas ar gyfer myfyrwyr sydd ddim yn cydymffurfio'n rhyweddol, sydd heb anableddau.

Ni fyddai hyn yn costio llawer i'r Brifysgol, gan nad yw ond yn golygu newid yr arwyddion i wneud y toiledau hyn yn gwbl hygyrch i fyfyrwyr oll. Er na fyddai newid o'r fath yn gwneud llawer o wahaniaeth i'r rhan fwyaf o boblogaeth y myfyrwyr, byddai o fudd sylweddol i'r rheiny sydd ddim yn cydymffurfio â rhyweddau deuaidd gwryw/benyw. Gan y byddai set o doiledau ar gyfer rhyweddau ym mhob adeilad, byddai'n caniatáu ar gyfer y rheiny sydd â rheswm i beidio defnyddio toiledau rhywedd niwtral, er enghraifft am resymau crefyddol neu bersonol, i barhau i ddefnyddio toiledau ar gyfer rhyweddau os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Cyflawnwyd gan: Samuel Smales





## **Polisi Dwyieithrwydd (Gweld Atodiad)**

*Sicrhau bod UMAber yn gweithredu'n ddwyieithog ac yn cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith.*

Manylion:

Dylai UMAber weithredu'n ddwyieithog bob amser. Mae'r polisi dwyieithrwydd blaenorol wedi darfod ac mae angen un newydd yn ei le.

Dylai UMAber fabwysiadu'r Polisi Dwyieithrwydd arfaethedig.

Cyflawnwyd gan: Gwion Llwyd





## Dydyn ni ddim yn fodlon goddef anghyfleuster BUCS!

*Cytunodd y Brifysgol i ryddhau dydd Mercher - Felly pam oes darlithoedd a theithiau gorfodol/asesedig yn ystod ein hamser rhydd?*

Manylion:

We won't take this BUCS-hit! Dydyn ni ddim yn fodlon goddef anghyfleuster BUCS! Facts:

1. The University currently has policy stating that no lectures or seminars are to be timetabled after 1pm on Wednesdays.
2. There is verbal agreement with the university to allow students to miss lectures and seminars to travel to BUCS away games.
3. Students are representing both the university and the Students' Union when playing their BUCS games and it is in the best interest of the university to allow students to continue to compete in and win BUCS games.

The Opinions:

1. Students currently have to attend compulsory events (field trips, assessments, etc.) on a Wednesday afternoon, directly going against their policies.
2. Students are unable to travel to BUCS games due to compulsory events and or timetabled lectures and seminars on Wednesday mornings and afternoons.
3. BUCS games are vital to a students' sporting experience and the act of competing in these games directly relates to AberSU's strategy to give students the best foot forward.

The Changes:

1. Not have and avoid having compulsory/assessed lectures and trips all day Wednesdays.
2. Lectures or seminars or events placed on a Wednesday at any time should not count towards the overall grade of the student.
3. Lecturers should be informed that students can miss lectures in order to travel to BUCS games and this should be supported by evidence from the Students' Union; with the agreement that students will catch up on any work missed. Ffeithiau:

1. Ar hyn o bryd, mae gan y Brifysgol bolisi sy'n datgan na ddylid trefnu darlithoedd na seminarau ar ôl 1pm ar brynhawn Mercher.
2. Mae cytundeb llafar yn bodoli â'r Brifysgol sy'n caniatáu i fyfyrwyr fethu darlithoedd a seminarau er mwyn teithio i gemau oddi cartref BUCS.
3. Mae myfyrwyr yn cynrychioli'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr pan fyddant yn chwarae gemau BUCS, ac mae caniatáu myfyrwyr i barhau i gystadlu mewn gemau BUCS a'u hennill er budd y Brifysgol.

Barn y Bobl:

1. Ar hyn o bryd, rhaid i fyfyrwyr fynychu digwyddiadau gorfodol (teithiau maes, asesiadau, ayyb.) ar brynhawn Mercher, sy'n mynd yn gwbl groes i'w polisïau.
2. Nid yw myfyrwyr yn gallu teithio i gemau BUCS oherwydd digwyddiadau gorfodol neu ddarlithoedd/seminarau ar eu hamserlen.
3. Mae gemau BUCS yn hanfodol i brofiad myfyrwyr ym maes chwaraeon, ac mae'r weithred o gystadlu yn y gemau hyn yn perthyn yn uniongyrchol i strategaeth UMAber o roi'r dechrau gorau i fyfyrwyr.

Newidiadau:

1. Osgoi darlithoedd a theithiau gorfodol/asesedig unrhyw bryd ar ddydd Mercher.
2. Ni ddylai darlithoedd a digwyddiadau ar ddydd Mercher gyfrif tuag at radd derfynol y myfyriwr unrhyw bryd.
3. Dylid rhoi gwybod i ddarlithwyr y gall myfyrwyr fethu darlithoedd er mwyn teithio i gemau BUCS, a dylai hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth gan Undeb y Myfyrwyr; gyda'r cytundeb y bydd myfyrwyr yn dal i fyni ag unrhyw waith a gollwyd. The University agreed to free up Wednesdays - So why are there compulsory/assessed lectures and trips during our free time? Cytunodd y Brifysgol i ryddhau dydd Mercher - Felly pam oes darlithoedd a theithiau gorfodol/asesedig yn ystod ein hamser rhydd?

Cyflawnwyd gan: Jessica Williams







## Cerddoriaeth Gymreig yn yr Undeb

*Bwriad y polisi hwn yw cyflwyno cerddoriaeth Gymreig drwy Undeb y Myfyrwyr, gan sicrhau bod diwylliant Cymru'n cael ei arddangos a'i hyrwyddo i fyfyrwyr.*

Manylion:

Bwriad y polisi hwn yw cyflwyno cerddoriaeth Gymreig drwy Undeb y Myfyrwyr, gan sicrhau bod diwylliant Cymru'n cael ei arddangos a'i hyrwyddo i fyfyrwyr. Mae'r system gerddoriaeth bresennol, 'SubTV', yn caniatáu i fyfyrwyr ddewis o blith llyfrgell rhagosodedig sydd ond ag ychydig o gerddoriaeth Gymreig (os oes o gwbl). Dylai UMAber weithio gyda'r Brifysgol i adolygu'r system bresennol ac ystyried ymarferoldeb chwarae cerddoriaeth Gymreig ar amser penodol bob wythnos ym manau masnachol Undeb y Myfyrwyr (e.e. dydd Mawrth 4-6pm) yn ogystal â chynnwys cerddoriaeth Gymreig fel rhan o'r gerddoriaeth gyffredinol a ddefnyddir yn y manau hyn.

Cyflawnwyd gan: Gwion Llwyd

